## COD YMARFER MENTORION

Mae'r Cod Ymarfer hwn yn nodi ymddygiad a ddisgwylir gan fenteion sy'n cofrestru gyda Mentora Busnes Cymru. Drwy lofnodi'r Cod rydych yn cytuno i barchu amrywiaeth ac i hybu cyfle cyfartal. Cyfrifoldeb y mentai yw gweithredu mewn modd sydd heb fod yn tramgwyddo nac yn niweidio'r mentor.

Sefydlwyd y Cod Ymarfer i hybu'r arferion gorau a sicrhau bod y safonau uchaf posibl yn cael eu cynnal yn ystod y berthynas fentora.

Mae pob aelod o Fframwaith Mentora Busnes Cymru yn derbyn egwyddorion a nodau Mentora Busnes Cymru.

Mae'r menteion yn cytuno i'r canlynol:

- Cydymffurfio â'r amodau sydd yn llawlyfr y mentor/mentai.
- Darparu proffil cywir i'w gynnwys ar gronfa ddata Mentora Busnes Cymru.
- Darparu cadarnhad o'ch perthynas fentora i Asiant Mentora Busnes Cymru.
- Bod yn barod i weithredu ar sail canlyniadau'r cyfarfodydd mentora.
- Rhoi adborth a chyfrannu at waith monitro a gwerthuso Mentora Busnes Cymru.
- Cynnal perthynas dda gyda Asiant Mentora Busnes Cymru.
- Os gwneir cwyn yn erbyn mentai, rhaid i'r mentai hwnnw gydweithredu â Mentora Busnes Cymru i ddatrys y gŵyn.
- Gweithredu o fewn y gyfraith gymwys a pheidio ag annog, cynorthwyo na chynllwynio â phobl eraill sy'n ymddwyn yn anonest, anghyfreithlon, amhroffesiynol neu gamwahaniaethol.
- Bod yn ymwybodol o wrthdaro posibl rhwng buddiannau o natur fasnachol neu emosiynol oherwydd y berthynas fentora, a hysbysu Mentora Busnes Cymru am unrhyw bryderon ar unwaith.
- Cynnal, drwy gydol y berthynas ac ar ôl i unrhyw fentora ddod i ben, lefel o gyfrinachedd sy'n briodol ac y cytunwyd arni ar ddechrau'r berthynas.
- Peidio â chamfanteisio ar y mentor mewn unrhyw fodd, gan gynnwys materion ariannol, rhywiol neu faterion o fewn y berthynas broffesiynol, ond heb fod yn gyfyngedig i'r rheini.
- Defnyddio Cod Moeseg Cyngor Mentora a Choetsio Ewrop fel canllaw i'r mentora a geir.

Llofnod: ……………………………………………………………………………….

Enw: ……………………………………………………………………………………

Dyddiad: …………………………………………….